# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion CYP(3)-12-09

**Dyddiad: dydd Mawrth 22 Medi 2009**
**Amser: 09:15 – 10:45**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfr
Christine Chapman, Cwm Cynon
Sandy Mewies, Delyn

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Annette Millett, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol
Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Freda Lewis, Cyfarwyddwr (Cymru), y Rhwydwaith Maethu
Robert Tapsfield, Prif Weithredwr, y Rhwydwaith Maethu
Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Donna Davies, Pennaeth y Tîm Plant Agored i Niwed, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle. Roedd Sandy Mewies yn dirprwyo ar ei rhan.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

1.4 Diolchodd y Cadeirydd i Rita Phillips am ei chyfraniad i waith y Pwyllgor.

### Eitem 2: Ymchwiliad i'r trefniadau ar gyfer rhoi plant mewn gofal yng Nghymru

**Y Rhwydwaith Maethu**

2.1 Ymatebodd Freda Lewis a Robert Tapsfield i gwestiynau'r Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Bydd y Clerc yn ysgrifennu at y Rhwydwaith Maethu yn gofyn am ragor o wybodaeth.

2.2 Diolchodd y Cadeirydd i Freda Lewis a Robert Tapsfield am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

**Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

2.3 Ymatebodd Gwenda Thomas AC a Donna Davies i gwestiynau'r Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Bydd y tystion yn rhannu canfyddiadau gwaith ymchwil diweddar ar system decach o dalu gweithwyr maeth â'r Pwyllgor.

Bydd y Clerc yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael cyflwyniad gan y CCSR.

Bydd y tystion yn paratoi nodyn i'r Pwyllgor ar y dyletswyddau, y rheoliadau a'r safonau cenedlaethol mewn perthynas â rhannu gywbodaeth â rhieni maeth.

2.4 Diolchodd y Cadeirydd i Gwenda Thomas AC a Donna Davies am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

**Sesiwn breifat**

## 3. Adroddiad drafft ar gyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru – cytuno ar yr adroddiad

3.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), cytunodd y Pwyllgor i drafod yr eitem hon yn breifat.

3.2 Yn dilyn trafodaeth, diwygiodd yr Aelodau yr adroddiad ar gyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru, a chytuno ar yr adroddiad.

3.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Hydref pan fydd y Pwyllgor yn parhau i glywed tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i'r trefniadau ar gyfer rhoi plant mewn gofal.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Medi 2009**